FAQs for parents in pilot areas

What is the childcare offer? The childcare offer will provide eligible working parents with a combined 30 hours of early education and childcare for 3 and 4 year olds, for up to 48 weeks per year. We are currently piloting this offer in parts of Wales.

What does it mean for me as a parent? If you have a 3 or 4 year old you are entitled to access a minimum of 10 hours per week of early education for your child during school terms (sometimes known as Foundation Phase Nursery). If you're working, and you live in one of our pilot areas, you could also receive additional hours of government-funded childcare, so that you receive a combined total of 30 hours of childcare and early education per week for up to 48 weeks a year, The 48 weeks is made-up of 39 weeks of combined education and childcare during school term-time and 9 weeks of 'holiday' provision outside of school terms when the entitlement is to 30 hours of childcare.

What is early education? All children are entitled to **early education** (Foundation Phase Nursery) from the term after their 3rd birthday. All local authorities provide a minimum of 10 hours per week early education, either in the local school or in a setting like a playgroup, a day nursery or a Cylch Meithrin . During term time, this early education will be part of the childcare offer's 30 hours. During the school holidays, when there is no early education, the offer will provide 30 hours a week of childcare for eligible parents, for up to 9 weeks. Your local Family Information Service will be able to help you find a registered provider that offers the service that meets your needs. For information on the Foundation Phase please click here or search for Foundation Phase Nursery on the Welsh Government webpages,

How will I know if I'm eligible? All parents of 3 and 4 year olds can access the early education entitlement. You are eligible to receive the additional childcare if you live within a pilot area, have a child within the age range and earn on average a weekly minimum equivalent to, or more than, 16 hours at national minimum wage (NMW) or national living wage (NLW) but less than £100,000 per year. If you are in a lone parent family you need to be working and if you are in a two parent family you both need to be working. If you are self-employed or on a zero hours contract you need to be able to prove this by providing the relevant documents. Foster carers and kinship carers may also be eligible. You can contact your Family Information Service for more information.

Where are the pilot areas? They are in specific local authority areas.. A full list is available on our **website** or on your local authority's website. We need pilots to test the offer to make sure it works for children, parents and providers, but the offer will be available across Wales from September 2020.

Can I choose any childcare provider? Yes, as long as they are willing to be part of the offer and they are registered with CIW (formerly CSSIW) or Ofsted (the inspectorates for childcare settings). They can do this by getting in touch with your local Family Information Service. Childcare providers can be outside of your pilot area, your county or even in England if you live on the border. There is no restriction on when you can use the additional childcare hours of the offer but it is up to you to find a childcare provider that suits your family's needs. The Family Information Service can help you by providing information on all the childcare settings.

What if my child has additional needs? The offer is available to all eligible parents but you and/or your provider may wish to contact your local authority who should be able to provide advice and details of any additional support available.

Will I have to pay for anything? The childcare offer funds a maximum of 30 hours of early education and childcare per week. The funding from the government is for the education and care the professionals within the setting provide. It does not include food, transport or off-site activities that incur an extra charge and providers will be able to charge you for these. The cost of transport will depend on where you live and how far they have to travel. Providers should not charge more than £7.50 per day for food or £4.75 for half a day (including lunch).

Do I have to use all 30 hours per week? No. You can choose how much of the 30 hours you use. However, if you do not use all of your 30 hours in one week, you cannot use them in another week. You cannot swap education hours for childcare hours, or childcare hours for education hours. You can pay for additional hours of childcare yourself based on a private contract between you and your childcare provider.

How do I apply? If you live in a pilot area you can apply for the offer, including your early education entitlement place, through your local authority. If you do not live in a pilot area, or are not entitled to the additional childcare hours, you can apply for your early education place through your local authority. Contact your local Family Information Service for more information.

Cwestiynau cyffredin i rieni yn yr ardaloedd peilot

Beth yw'r cynnig gofal plant? Bydd y cynnig gofal plant newydd yn darparu cyfanswm cyfunol o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn ar gyfer plant 3 a 4 oed i rieni cymwys sy'n gweithio. Rydym yn rhedeg cynllun peilot ar y cynnig hwn mewn rhai ardaloedd ar hyn o bryd.

Beth y mae'n ei olygu i mi fel rhiant? Os oes gennych chi blentyn sy'n 3 neu'n 4 oed, mae hawl gennych i gael o leiaf deng awr yr wythnos o addysg gynnar (sy'n cael ei adnabod hefyd fel Meithrin Cyfnod Sylfaen) i'ch plentyn yn ystod tymhorau ysgol. Os ydych chi'n gweithio, ac rydych yn byw yn un o'r ardaloedd peilot, gallech chi gael oriau ychwanegol o ofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth hefyd, fel eich bod yn cael cyfanswm o 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar yr wythnos am gyfnod o hyd at 48 wythnos y flwyddyn.. Mae'r 48 wythnos yn cynnwys 39 wythnos o ddarpariaeth gyfunol o addysg a gofal plant yn ystod tymhorau ysgol a 9 wythnos o ddarpariaeth 'adeg gwyliau' y tu allan i dymhorau ysgol. Bryd hynny, hawl i gael hyd at 30 awr o ofal plant sydd gennych.

Beth yw addysg gynnar? Mae hawl gan bob plentyn i gael **addysg gynnar** (Meithrin Cyfnod Sylfaen) o'r tymor ar ôl ei ben-blwydd yn 3 oed. Mae pob awdurdod lleol yn darparu isafswm o 10 awr o addysg gynnar yr wythnos, naill yn yr ysgol leol neu mewn lleoliad fel grŵp chwarae, meithrinfa ddydd neu Gylch Meithrin. Yn ystod y tymor ysgol, bydd yr addysg gynnar yma yn rhan o 30 awr y cynnig gofal plant. Yn ystod gwyliau ysgol, pan nad oes addysg gynnar, bydd y cynnig yn rhoi 30 awr o ofal plant i rieni cymwys am gyfnod o hyd at 9 wythnos. Gall eich Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol eich helpu i ddarganfod darpariaeth cofrestredig sy'n ateb eich gofynion. I gael gwybodaeth ynghylch y Cyfnod Sylfaen cliciwch yma neu chwiliwch am Meithrin Cyfnod Sylfaen ar dudalennau gwe Llywodraeth Cymru.

Sut y byddaf yn gwybod a ydw i'n gymwys? Mae rhieni plant 3 a 4 oed yn gallu manteisio ar yr hawl i gael addysg gynnar. Rydych chi'n gymwys i gael y gofal plant ychwanegol os ydych chi'n byw yn ardal y cynllun peilot, os oes gennych blentyn o fewn yr ystod oedran, a'ch bod yn ennill ar gyfartaledd isafswm wythnosol cyfwerth ag 16 awr neu ragor ar isafswm cyflog cenedlaethol neu ar gyflog byw cenedlaethol ond llai na £100,000 y flwyddyn. Os yr ydych yn deulu unig riant bydd yn rhaid i chi fod mewn gwaith a mewn teulu dau riant, mae angen i'r ddau ohonoch fod yn gweithio. Os yr ydych yn hunangyflogedig neu ar gontract dim oriau bydd disgwyl ichi brofi hyn drwy gyflwyno dogfennau perthnasol. Mae'n bosibl bod rhieni maeth a gofalwyr sy'n berthnasau yn gymwys hefyd. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth.

Pa ardaloedd yw'r ardaloedd peilot? Maent mewn ardaloedd awdurdodau lleol dynodedig. Mae rhestr lawn ohonynt ar ein **gwefan** neu ar wefan eich awdurdod lleol.. Mae angen ardaloedd peilot arnom er mwyn profi'r cynnig i wneud yn siŵr ei fod yn gweithio i blant, i rieni ac i ddarparwyr, ond bydd y cynnig ar gael ledled Cymru o fis Medi 2020.

Ga i ddewis unrhyw ddarparwr gofal plant? Gallwch, ar yr amod bod y darparwr hwnnw yn hapus i fod yn rhan o'r cynnig a'i fod wedi ei gofrestru ag AGC (AGGCC gynt) neu â'r Swyddfa Safonau mewn Addysg (yr arolygiaethau ar gyfer lleoliadau gofal plant). Gallant wneud hynny drwy gysylltu â'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd lleol. Gall y darparwyr gofal plant fod wedi eu lleoli y tu allan i'ch ardal beilot, y tu allan i'ch sir, neu fod yn Lloegr hyd yn oed, os ydych chi'n byw ar y ffin. Nid oes unrhyw gyfyngiad o ran pa bryd y gallwch ddefnyddio'r oriau gofal plant ychwanegol, ond eich cyfrifoldeb chi yw dod o hyd i ddarparwr gofal plant sy'n addas i anghenion eich teulu chi. Gall y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd eich helpu drwy ddarparu gwybodaeth ar yr holl leoliadau gofal plant.

Beth os oes gan fy mhlentyn anghenion ychwanegol? Mae'r cynnig ar gael i bob rhiant cymwys, ond efallai y byddwch chi a/neu eich darparwr yn dymuno cysylltu â'ch awdurdod lleol ac fe ddylai allu rhoi cyngor i chi a manylion unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd ar gael.

Fydd angen imi dalu am unrhyw beth? Mae'r cynnig gofal plant yn cyllido uchafswm o 30 awr o addysg gynnar a gofal plant yr wythnos. Mae'r arian gan y Llywodraeth ar gyfer yr addysg a'r gofal y mae'r gweithwyr proffesiynol yn y lleoliad yn eu darparu. Nid yw'n cynnwys bwyd, cludiant na gweithgareddau oddi ar y safle sy'n gofyn am dâl ychwanegol, a bydd eich darparwr yn gallu codi tâl arnoch chi am y pethau hyn. Bydd y costau cludiant yn ddibynnol ar leoliad eich cartref a pha mor bell y mae angen iddynt deithio, Ni ddylai darparwyr godi mwy na £7.50 y diwrnod am fwyd neu £4.75 am hanner diwrnod (yn cynnwys cinio).

Oes rhaid imi ddefnyddio'r 30 awr yr wythnos yn llwyr? Nac oes. Chi sy'n dewis faint o'r 30 awr yr ydych chi am eu defnyddio. Fodd bynnag, os na fyddwch chi'n defnyddio pob un o'r 30 awr mewn wythnos, ni allwch chi ddefnyddio'r oriau sy'n weddill mewn wythnos arall. Ni allwch gyfnewid oriau addysg am oriau gofal plant, nac oriau gofal plant am oriau addysg. Gallwch chi dalu am oriau ychwanegol o ofal plant eich hun yn seiliedig ar gontract preifat rhyngoch chi a'ch darparwr gofal plant.

Sut ydw i'n gwneud cais? Os ydych chi'n byw mewn ardal beilot gallwch wneud cais am y cynnig, gan gynnwys y lle addysg gynnar y mae hawl gennych ei gael, drwy eich awdurdod lleol. Os nad ydych yn byw mewn ardal beilot, neu os nad ydych yn gymwys i gael yr oriau ychwanegol o ofal plant, gallwch wneud cais am eich lle addysg gynnar drwy eich awdurdod lleol. Cysylltwch â'ch Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i gael rhagor o wybodaeth.